

## Cofnodion Tasglu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio – 11 Mai, MS Teams

### Yn bresennol:

Alison Heal	ALI Ceredigion
Angharad Owen	Network Rail
Bleddyn Lake	Cyfeillion y Ddaear
Bruce Langridge	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Clare Eleanor Williamson	ALI Conwy
Daniel Warren	Prifysgol Abertawe
Elliot Waters	Cyngor Sir Fynwy / Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
Gemma Baron	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Geoff Robinson	Llywodraeth Cymru
Huw Bramhall	Llywodraeth Cymru
Julieanne Quinlan	ALI Conwy
Kathleen Carroll	Llywodraeth Cymru
Lizzie Wilberforce	Plantlife
Maria Golightly	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Mark Cleaver	Cyngor Sir Fynwy
Nigel Leaworthy	Cyngor Sir Fynwy
Rachel Carter	Un Llais Cymru
Richard Dawson	UK Centre for Ecology & Hydrology
Richard Whitehead	Llywodraeth Cymru
Samantha Harris	Llywodraeth Cymru
Stacey Delbridge	Cyngor Sir Fynwy / Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
Tim Birch	Ymddiriedolaeth Natur
Tom Bucher-Flynn	Buglife

1. Agorodd Kathleen Carroll y cyfarfod a chyflwyno'r rhai oedd yn bresennol i'w gilydd.
2. **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** - Richard Whitehead (Llywodraeth Cymru, Pennaeth Polisi a Gweithredu Adnoddau Naturiol) (Gweler y sleidiau sydd mewn atodiad yn yr e-bost)

Esboniodd Richard fod Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn fenter gan Lywodraeth Cymru i greu natur ar garreg eich drws. Fe'i cynlluniwyd i adfer a gwella natur mewn mannau ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Canolbwyntir ar ardaloedd o amddifadedd neu ar gyfer y rhai sydd â'r mynediad lleiaf at natur yng Nghymru, megis cymunedau trefol. Gobeithio y bydd rhoi mynediad i fyd natur yn cefnogi lles pobl, yn rhoi gwerthfawrogiad iddynt o natur ac yn eu helpu i ddeall manteision rhaglenni rheoli tir cynaliadwy ehangach.

Caiff y prosiectau eu monitro a'u gwerthuso'n flynyddol.

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn darparu cyllid, ynghyd â chymorth i weithredu prosiectau penodol. Mae'n gweithio gyda chymunedau lleol i fwrw ymlaen â phrosiectau. Mae'n mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny.

Mae sawl elfen: Cynlluniau Partneriaeth Natur Lleol, Grant Cyfalaf Mynediad Agored, Pecynnau Cymunedol, Chwalu Rhwystrau ac Un Llais Cymru.

Bydd y cyllid ar gyfer prosiectau eleni yn cael ei hyrwyddo drwy sianeli Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gofynnwyd cwestiwn am reoli prosiectau ar ôl iddynt gael eu sefydlu a defnyddio plaladdwyr mewn mannau cyhoeddus.

Esboniodd Richard fod y pecynnau cymunedol yn canolbwyntio ar addysg ac arweiniad. Maent yn esbonio manteision pryfed peillio a sut i gynnal y safleoedd heb ddibynnu ar blaladdwyr. Gall cynghorwyr sy'n gysylltiedig â Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) megis cydgysylltwyr Partneriaethau Natur Lleol hefyd ddarparu gwybodaeth am sut i reoli safleoedd heb ddefnyddio plaladdwyr. Mae'r pecynnau'n gofyn am ymrwymiad pum mlynedd i gynnal y safleoedd ar ôl eu sefydlu. Er hynny, roedd Richard yn cydnabod weithiau nad yw unigolyn sy'n gyfrifol am hyn yn gallu cyflawni'r ymrwymiad hwnnw oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd megis symud i ffwrdd. Fodd bynnag, oherwydd y dull o'r gwaelod i fyny o ymdrin â'r prosiectau, mae llawer o'r prosiectau llai cychwynnol yn cael eu cefnogi gan y gymuned ac yn mynd ymlaen i fod yn brosiectau mawr.

### **3. Dolydd sy'n llawn rhywogaethau - Bruce Langridge (Pennaeth Dehongli yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru) (Gweler y sleidiau sydd mewn atodiad yn yr e-bost)**

Mae Bruce wedi bod yn rhan o'r gwaith o adfer dolydd ar fferm organig Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ers blynnyddoedd lawer.

Atgoffodd Bruce ni o bwysigrwydd dolydd sy'n llawn rhywogaethau ar gyfer y 700 o wahanol blanhigion, 1,400 o rywogaethau di-asgwrn-cefn a bywyd gwyllt arall y maent yn ei gefnogi. Maent hefyd yn storfa garbon bwysig gyda'u gwreiddiau tap dwfn yn tynnu carbon i lawr. Gall dolydd sy'n llawn rhywogaethau gynnwys 500% yn fwy o garbon na glaswelltir ungnwd. Gan mai glaswelltir yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o dir yng Nghymru, mae creu dolydd sy'n llawn rhywogaethau yn cynnig potensial mawr i gloi carbon i mewn.

Y dull cychwynnol a ddefnyddiwyd yn yr Ardd i drosi glaswelltir oedd yn brin o rywogaethau i ddolydd sy'n llawn rhywogaethau oedd cael gwared ar faetholion drwy gymryd toriad blynnyddol. Ar ôl 5-6 mlynedd, roedd newid amlwg a dechreuodd rhywogaethau sy'n gysylltiedig â dolydd llawn blodau fel y gribell felen a charwy droellennog ddechrau ymddangos a ffynnu.

Yna meddyliodd yr Ardd sut y gallent ddefnyddio gwair gwyrdd o'r dolydd llawn blodau hyn i adfer dau gae ychwanegol. Dechreuwyd ar y broses hon yn 2016 ac

roedd y glaswellt yn y safle derbyn yn drwchus ac yn dlawd o ran rhywogaethau. Defnyddiwyd canllawiau a gynhyrchwyd gan Trevor Dines i roi arweiniad. Erbyn 2019, roedd y garwy droellennog a'r tegeirian llydanwyrdd wedi ymddangos yn y safleoedd newydd. Mae gwair gwyrdd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan grwpiau dolydd eraill ond mae cyfyngiadau iddo. Mae'n bwysig atal hadau rhag gorboethi ac mae angen ei dorri, ei gasglu a'i daenu ar yr un diwrnod.

Mae'r ardd wedi symud at gasglu hadau o'r dolydd. Mae hyn yn dileu cyfyngiadau amser gwair gwyrdd ac yn darparu ffynhonnell hadau lleol. Byddant yn defnyddio cynaeafwr brws a chaiff hadau eu sychu a'u hidlo yn un o'r ysguboriau.

Gofynnwyd cwestiwn a ellir llogi'r cynaeafwr brws. Esboniodd Bruce fod y cynaeafwr wedi costio tua £6K ac fe'i hariannwyd drwy grant Caru Natur Cymru (Biophilic Wales) (Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) Llywodraeth Cymru). Cadarnhaodd Bruce hefyd fod gwaith ar y dolydd yn cael ei ariannu drwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy'r RC-RDP. Dywedodd Richard y byddai'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect yn ddefnyddiol wrth ddatblygu cynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd.

#### **4. Prosiect Peillwyr Casnewydd - Tom Bucher-Flynn (Buglife)** (Gweler y sleidiau sydd mewn atodiad yn yr e-bost)

Ariennir [Prosiect Peillwyr Casnewydd](#) gan Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Lleolir safleoedd y tu mewn neu ychydig y tu allan i brosiect B-lines Buglife. Nod y prosiect yw adfer/creu cynefin, cynyddu'r broses o gofnodi pryfed peillio, cynyddu gwybodaeth pobl a'u hysbrydoli i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu lles. Mae pedwar safle: Y Ffordd i Natur/Road to Nature (Coedkernow), Y Twmp – Barracks Wood, Gwarchodfa Natur Leol Coed Sant Julian (LNR) a Pillgwenlli. Mae gan y Ffordd i Natur gynefinoedd glaswelltir corsiog ond fe'i defnyddiwyd yn flaenorol fel tir dympio. Cliriwyd y gwastraff wedi'i ddympio ac mae cynefinoedd yn cael eu rheoli ar y safle gan gynnwys y dyfrffyrdd. Ynghyd â St Julian's Wood mae adnodd blodau uchel (gan gynnwys pys a chodlysiau eraill) yn yr ardal hon. Nid oes mynediad i gerbydau mwyach ar y safle ond mae wedi'i gysylltu â llwybr beicio. Yn Y Twmp – Barracks Wood, maent yn rheoli glaswelltir i gael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol a phrysgwydd sy'n llechfeddiannu. Mae gwaith yng Ngwarchodfa Natur Leol Coed Sant Julian yn cysylltu â Phrosiect Buglife - [Chwilio am Glafrllys](#). Ym Mhllgwenlli, nid oedd manau gwyrdd yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Maent bellach yn gweithio gyda thrigolion lleol i newid y rhain i fod yn adnodd i fywyd gwyllt a bydd hyn hefyd o fudd i bobl. Maent yn uwchraddio sgiliau pobl i adnabod a chofnodi pryfed peillio gan gynnwys y rhai yn y prosiect Chwilio am Glafrllys. I rai grwpiau nad ydynt wedi ymgysylltu â natur o'r blaen, maent wedi canfod, er mwyn magu hyder, eu bod yn gweithio gyda nhw gyntaf mewn canolfan/lleoliad y mae'r grŵp yn gyfarwydd ag ef. Unwaith y bydd y grŵp yn gyfforddus, maent yn dod â nhw i'r safle. Maent yn creu cynlluniau gyda grwpiau cymunedol felly bydd gan y prosiect hirhoedledd ar ôl i'r cyllid cychwynnol ddod i ben.

## 5. Modelu Digonedd o Bryfed Peillio yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn Llywio Cynllunio Seilwaith Gwyrdd - P. Yui Khatti a Daniel Warren (Prifysgol Abertawe)

Mae hwn yn brosiect a ariennir gan UKCRF i adfer, gwella a chysylltu seilwaith gwyrdd ar gyfer pobl a natur yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae recordiad o gyflwyniad Yui wedi'i atodi i'r e-bost. Cysylltwch â [NPT GI Roadmap - Map Ffordd SG CNPT \(@RoadmapGI\) / Twitter](#), <https://www.facebook.com/roadmapGI> neu [RoadmapGI@swansea.ac.uk](mailto:RoadmapGI@swansea.ac.uk) os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## 6. Diweddariadau

### Ymddiriedolaeth Natur:

- Rhoddodd Tim Birch ddolen i - [Bugs Matter survey finds that UK flying insects have declined by nearly 60% in less than 20 years - newyddion diweddaraf Buglife](#)

### Plantlife:

- Dywedodd Lizzie Wilberforce wrthym fod Plantlife wedi lansio ei Hyb Dolydd dwyieithog:

Dolen Gymraeg: <https://meadows.plantlife.org.uk/cy/home-2/>

Dolen Saesneg: <https://meadows.plantlife.org.uk/>

- Mae Plantlife hefyd wedi cyfieithu eu canllawiau cynhwysfawr i'r Gymraeg: [rheoli glaswelltiroedd ymylon ffyrdd: canllaw arfer gorau](#). Mae'r fersiwn Saesneg ar gael yma: [Managing grassland road verges: a best practice guide](#)

### Diweddariad Llywodraeth Cymru:

- Aeth tudalen lanio Ymylon ffyrdd a glastwelltiroedd amwynder a'r dudalen Cwestiynau cyffredin yn fyw ar 6 Mai.

Tudalen Lanio:

<https://gov.wales/grasslandwildlife>

<https://llyw.cymru/glaswelltirbywydgwylt>

Cwestiynau cyffredin:

<https://gov.wales/road-ve+rges-and-amenity-grasslands-supporting-wildlife-frequently-asked-questions>

<https://llyw.cymru/ymylon-ffyrdd-glaswelltiroedd-amwynder-syn-cynnal-bywyd-gwylt-cwestiynau-cyffredin>

- Mae'r ymgyrch 'It's For Them' yn cael ei datblygu. Diben yr ymgyrch yw hyrwyddo sefydliadau i greu ardaloedd mwy tebyg i ddolydd ar ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd amwynder ac er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd ynghylch pam mae hyn yn dda i fywyd gwyllt.

Ym mis Ionawr 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Beaufort Research i gynnal Omnibws Cymru: Arolwg Argyfwng Natur a Thorri Glaswellt Llywodraeth Cymru. Tynnodd yr Arolwg sylw at y ffaith nad oedd pobl yn hollol siŵr pam yr oeddem yn annog newid y broses o dorri gwair. Felly, roeddem o'r farn y byddai cael ymgyrch o'r enw 'It's for Them' yn helpu i ddangos mai cefnogi natur y mae.

- Fel rhan o'r cynllun Caru Gwenyn, cynhyrchwyd llyfryn newydd 'Plannu ar gyfer Pryfed Peillio' a phosteri. Mae'r llyfryn â darluniau yn rhoi cyngor ar gyfer thema gyntaf Caru Gwenyn, sef darparu 'Bwyd' sy'n addas i bryfed peillio. Mae hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu lleoedd i bryfed peillio gysgodi.

Diolch o galon i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am eu cymorth wrth lunio'r llyfryn hwn: Marc Carlton (Wildlife Gardening Forum), Jan Miller (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru), Abi Lowe, Kevin McGinn a Natasha de Vere (Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru), Cath Shellswell (Plantlife), Mark Cleaver (Cyngor Sir Fynwy) a Lucy Arnold-Matthews (Cyngor Dinas Casnewydd).

Mae copïau caled o'r llyfryn Plannu ar gyfer Pryfed Peillio a phosteri (A3 ac A2) ar gael ar gais gan [NatureConservation@llyw.cymru](mailto:NatureConservation@llyw.cymru).

Mae pdf y llyfryn digidol i'w weld yma:

Cymraeg: <https://www.biodiversitywales.org.uk/File/809/cy-GB>

Saesneg: <https://www.biodiversitywales.org.uk/File/809/en-GB>

Mae'r poster digidol pdf dwyieithog i'w gweld yma:

- [Caru Gwenyn – Croesawch bryfed peillio i'ch balconi a'ch iard](#)
- [Caru Gwenyn – Croesawch bryfed peillio i'ch balconi a'ch iard](#)
- [Caru Gwenyn – Croesawch bryfed peillio i'ch gardd](#)

## 7. Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn rhithwir yn hydref 2022. Bydd arolwg Doodle ar gyfer dyddiadau posibl yn cael ei ddosbarthu gan Kathleen Carroll.